BAGLORIAETH CYMRU

Uwch

Her y Gymuned

Shelter Cymru / Legal & General (Materion Tai a Chynhwysiant Ariannol)

© WJEC CBAC Ltd.

HER Y GYMUNED: Atal Digartrefedd ymhlith Pobl Ifanc

PWRPAS

Pwrpas Her y Gymuned yw meithrin sgiliau dysgwyr, gan annog dysgwyr i adnabod, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i'r gymuned. Fel rhan o Her y Gymuned, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Cynllunio a Threfnu** ac **Effeithiolrwydd Personol** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

BRIFF

Fel elusen pobl a chartrefi Cymru, mae Shelter Cymru wedi'i hysgogi gan y gred sylfaenol fod yr hawl gan bawb yng Nghymru i gartref gweddus, diogel. Mae gan bob person ifanc yr hawl i ddysgu am fyw'n annibynnol er mwyn rhoi'r dechrau gorau bosibl iddynt yn eu bywyd fel oedolyn.

Pwrpas yr her hon yw cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am faterion tai a chynhwysiant ariannol yn eich cymuned leol.

Bydd yr her hon yn rhoi cyfle i chi weithio fel unigolyn neu fel tîm (3 – 6 aelod). Bydd gofyn i chi gynllunio, trefnu a datblygu eich gweithgareddau eich hunain am isafswm o **30 awr** o ymgysylltu gweithgar sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth pobl eraill ynghylch gadael cartref i fyw'n annibynnol am y tro cyntaf.

Er mwyn cyflawni hyn, yn gyntaf, bydd angen i chi ymchwilio a datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth eich hun am faterion tai a chynhwysiant ariannol yng Nghymru. Yna bydd angen i chi gynllunio sut byddwch yn treulio 30 awr yn mynd ati'n weithgar i addysgu pobl eraill yn eich cymuned.

Bydd gofyn i'r sesiynau neu'r gweithdai rydych chi'n eu trefnu yn eich cymuned leol gynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn y gymuned leol i ddod yn fwy ymwybodol o'r heriau y gallent ddod ar eu traws pan fyddant yn gadael cartref am y tro cyntaf, a'r opsiynau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Drwy wneud hyn, bydd pobl ifanc wedi eu paratoi'n well i allu llunio penderfyniadau gwybodus ynghylch tai. Bydd adnoddau Addysg Shelter Cymru a'r deunyddiau *Everyday Money* gan Legal & General yn rhoi i chi'r arfau angenrheidiol i'ch galluogi i fynd i'r afael â'r her hon.

Rhaid i chi ymgysylltu'n weithgar a dangos ymrwymiad dros leiafswm o 30 awr ac o leiaf 4 wythnos i gynnal y gweithgareddau a'r cyfleoedd hyn, gan gynnig cyngor, cefnogaeth ac anogaeth i bobl ifanc leol.

ADNODDAU

© WJEC CBAC Ltd.

Ewch i https://sheltercymru.org.uk/cy/beth-rydym-yn-ei-wneud/addysg/ i roi eich enw cyswllt a'ch cyfeiriad e-bost, yna bydd canllawiau, adnoddau a rhagor o wybodaeth am yr her yn cael eu hanfon atoch yn awtomatig. Ar ôl i chi roi eich manylion cyswllt, bydd Swyddog Datblygu Addysg Shelter Cymru hefyd yn cysylltu â chi i gynnig mwy o gefnogaeth.

MANYLION CYSWLLT

E-bostiwch: education@sheltercymru.org.uk
Ffoniwch: 01792 483002.

© WJEC CBAC Ltd.